**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2005 Rhif 427 (Cy.44)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001 ("y prif Reoliadau") sy'n darparu ar gyfer codi a chasglu ffioedd am gyffuriau a chyfarpar sy'n cael eu cyflenwi gan feddygon a fferyllwyr sy'n darparu gwasanaethau fferyllol a gweinyddol, a chan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG i gleifion allanol.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlen yn gostwng y ffi am eitemau ar bresgripsiwn a gyflenwir i gleifion allanol o £5.00 i £4.00. Gostyngir y tâl am hosanau elastig o £5.00 i £4.00 (o £10.00 i £8.00 y pâr) a'r tâl am deits o £10.00 i £8.00. Gostyngir y symiau a ragnodir ar gyfer rhoi tystysgrifau rhagdalu o £26.16 i £20.93 am dystysgrif pedwar mis ac o £71.83 i £57.46 am dystysgrif deuddeng mis.

Mae diwygiadau a wneir gan reoliad 3 yn darparu na fydd ffi yn daladwy gan bersonau o dan 25 oed, neu gan y rhai sy'n 60 oed neu'n hyn, am gyflenwi cyfarpar a chyffuriau'n unol â rheoliad 5 o'r prif Reoliadau (cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2005 No. 427 (W.44)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

# The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) Regulations 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations further amend the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) Regulations 2001 ("the principal Regulations") which provide for the making and recovery of charges for drugs and appliances supplied by doctors and chemists providing pharmaceutical and dispensing services, and by Local Health Boards and NHS Trusts to out-patients.

Regulation 2 and the Schedule reduce the charge for items on prescription supplied to out-patients from £5.00 to £4.00. The charge for elastic stockings is reduced from £5.00 to £4.00 (from £10.00 to £8.00 per pair) and that for tights from £10.00 to £8.00. The sums prescribed for the grant of pre-payment certificates are reduced from £26.16 to £20.93 for a four month certificate and from £71.83 to £57.46 for a twelve month certificate.

Amendments made by regulation 3 provide that no charge will be payable by persons under the age of 25 years, or those of 60 years or over for the supply of appliances and drugs in accordance with regulation 5 of the principal Regulations (supply of drugs and appliances by Local Health Boards and NHS Trusts).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 427 (Cy.44)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *1 Mawrth 2005* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 77 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru'n unig.

(1) 1977 p.49; gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), i gael y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a Deddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 37(6).

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 77 a 126(4) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(4), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15), adran 68(1), Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), adran 40(1) a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), adran 197(1).

(2) O.S.2001/1358 (Cy.86). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2001/2359 (Cy.196) a 2004/1018 (Cy.115).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 427 (W.44)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made* | *1 March 2005* |
| *Coming into force* | *1 April 2005* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 77 and 126(4) of the National Health Service Act 1977(**1**) hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement, interpretation and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 and come into force on 1 April 2005.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) Regulations 2001(**2**).

(3) These Regulations apply in relation to Wales only.

(1) 1977 c.49; see section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19)("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i), for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2) and the Health Act 1999 (c.8) ("the 1999 Act"), Schedule 4, paragraph 37(6).

The functions of the Secretary of State under sections 77 and 126(4) were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672), article 2 and Schedule 1, as amended by the 1999 Act, section 66(4), the Health and Social Care Act 2001 (c.15), section 68(1), the national Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 (c.17), section 40(1) and the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (c.43), section 197(1).

(2) S.I.2001/1358 (W.86). Relevant amending instruments are S.I.2001/2359 (W.196) and 2004/1018 (W.115).

**Diwygio symiau a bennir yn y prif Reoliadau**

**2**. Am bob swm a bennir yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, pan fydd y swm hwnnw yn ymddangos yn narpariaeth y prif Reoliadau, a honno'n ddarpariaeth a bennir mewn perthynas â'r swm hwnnw yng ngholofn (1) (ac y gwelir yng ngholofn (2) beth yw ei phwnc), rhodder yn lle'r swm hwnnw y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (4).

**Diwygio rheoliad 8 o'r prif Reoliadau**

**3**. Yn rheoliad 8(2)(a), yn lle "paragraff (1)(d)" rhodder "yn unrhyw is-baragraff o blith is-baragraffau (a), (b) neu (d) o baragraff (1)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

1 Mawrth 2005

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(1) 1998 p.38

**Amendment of amounts specified in the principal Regulations**

**2**. For each amount specified in the column (3) of the Schedule to these Regulations, where it appears in the provision of the principal Regulations specified in relation to it in column (1) (the subject matter of which is indicated in column (2)), substitute the amount specified in relation to it in column (4).

**Amendment of regulation 8 of the principal Regulations**

**3**. In regulation 8(2)(a), for "paragraph (1)(e)" substitute "in any of sub-paragraphs (a), (b) or (e) of paragraph (1)".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

1 March 2005

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 c.38

## YR ATODLEN

## SYMIAU A AMNEWIDIR YN Y PRIF REOLIADAU

| *(1) Darpariaeth yn y prif Reoliadau* | *(2) Y pwnc* | *(3) swm blaenorol* | *(4) swm newydd* |
|---|---|---|---|
| Rheoliad 3 - | Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan fferyllwyr - | | |
| paragraff (1)(a) | ffi am hosanau elastig -<br>fesul eitem<br>y pâr | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraff (1)(b) | ffi am gyffuriau, ac am gyfarpar nas pennir ym mharagraff (1)(a) | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraff (1A)(a) | ffi am hosanau elastig -<br>fesul eitem<br>y pâr | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraff (1A)(b) | ffi am gyffuriau, ac am gyfarpar nas pennir ym mharagraff (1A)(b) | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraff (4) | ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn | £ 5.00 | £ 4.00 |
| Rheoliad 4 - | Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan feddygon - | | |
| paragraff (1)(a) | ffi am hosanau elastig -<br>fesul eitem<br>y pâr | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraff (1)(b) | ffi am gyffuriau a chyfarpar nas pennir ym mharagraff (1)(a) | £ 5.00 | £ 4.00 |

## SCHEDULE

## AMOUNTS SUBSTITUTED IN THE PRINCIPAL REGULATIONS

| *(1) Provision in the principal Regulations* | *(2) Subject matter* | *(3) old amount* | *(4) new amount* |
|---|---|---|---|
| Regulation 3 - | Supply of drugs and appliances by chemists - | | |
| paragraph (1)(a) | charge for elastic hosiery -<br>per item<br>per pair | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraph (1)(b) | charge for drugs, and for appliances not specified in paragraph (1)(a) | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraph (1A)(a) | charge for elastic hosiery -<br>per item<br>per pair | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraph (1A)(b) | charge for drugs, and for appliances not specified in paragraph (1A)(b) | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraph (4) | charge for drugs supplied by instalments | £ 5.00 | £ 4.00 |
| Regulation 4 - | Supply of drugs and appliances by doctors - | | |
| paragraph (1)(a) | charge for elastic hosiery -<br>per item<br>per pair | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraph (1)(b) | charge for drugs, and appliances not specified in paragraph (1)(a) | £ 5.00 | £ 4.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoliad 5 - | Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar i gleifion allanol gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiried-olaethau GIG - | | |
| paragraff (1)(a) | ffi am hosanau elastig-<br>fesul eitem<br>y pâr | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraff (1)(c) | ffi am deits | £ 10.00 | £ 8.00 |
| paragraff (1)(d) | ffi am gyffuriau a chyfarpar nas pennir ym mharagraff (1)(a) neu (1)(c), neu yn Atodlen 1 | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraff (5) | ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn | £ 6.00 | £ 4.00 |
| Rheoliad 6 - | Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar mewn Canolfannau cerdded-i-mewn | | |
| paragraff (1)(a) | ffi am hosanau elastig -<br>fesul eitem<br>y pâr | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraff (1)(b) | ffi am gyffuriau ac am gyfarpar nas pennir ym mharagraff (1)(a) | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraff (4) | ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn | £ 5.00 | £ 4.00 |
| Rheoliad 7(1) | Cyflenwi cyffuriau o dan Gyfarwyddiadau Grwp Cleifion<br><br>ffi am gyffuriau | <br><br><br>£ 5.00 | <br><br><br>£ 4.00 |
| Rheoliad 10(5) | Tystysgrif ragdalu -<br><br>4 mis<br>12 mis | <br><br>£26.16<br>£71.83 | <br><br>£20.93<br>£57.46 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Regulation 5 - | Supply of drugs and appliances to out-patients by Local Health Boards and NHS Trusts - | | |
| paragraph (1)(a) | charge for elastic hosiery -<br>per item<br>per pair | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraph (1)(c) | charge for tights | £ 10.00 | £ 8.00 |
| paragraph (1)(d) | charge for drugs, and appliances not specified in paragraph (1)(a) or (1)(c), or in Schedule 1 | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraph (5) | charge for drugs supplied by instalments | £ 6.00 | £ 4.00 |
| Regulation 6 - | Supply of drugs and appliances at Walk-in centres | | |
| paragraph (1)(a) | charge for elastic hosiery -<br>per item<br>per pair | <br><br>£ 5.00<br>£ 10.00 | <br><br>£ 4.00<br>£ 8.00 |
| paragraph (1)(b) | charge for drugs, and appliances not specified in paragraph (1)(a) | £ 5.00 | £ 4.00 |
| paragraph (4) | charge for drugs supplied by instalments | £ 5.00 | £ 4.00 |
| Regulation 7(1) | Supply of drugs under Patient Group Directions<br><br>charge for drugs | <br><br><br>£ 5.00 | <br><br><br>£ 4.00 |
| Regulation 10(5) | Pre-payment certificate -<br><br>4 months<br>12 months | <br><br>£26.16<br>£71.83 | <br><br>£20.93<br>£57.46 |

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 427 (Cy.44)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 427 (W.44)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) Regulations 2005

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091082-6

9 780110 910826

£3.00

W26/3/05 ON